# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(215)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynigion i ethol aelodau i bwyllgorau**
**NDM5566 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig).

**NDM5567 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jane Hutt (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Lesley Griffiths (Llafur).

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon: Adnewyddu'r Polisi Newid yn yr Hinsawdd - Gohiriwyd**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Dysgu o Adolygiadau Nodiadau Achos Marwoldeb (45 munud)**

**Dogfen Ategol**
Adolygiad o ddata ar farwolaethau

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Camau gan y Sector Tai i Fynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Cham-drin Domestig (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Adolygiad Polisi ac Arferion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cymru (Saesneg yn unig)

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Cynllun Bathodyn Glas - y wybodaeth ddiweddaraf (30 munud)**

**7 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y Chweched Fforwm Cydlyniant (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Chweched Adroddiad Cydlyniant ar Gydlyniant Economaidd, Cymdeithasol a Thiriogaethol (Saesneg yn unig)

**8 Rheoliadau (Gweithdrefnau a Ffioedd) Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 (15 munud)**

**NDM5561 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2014.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dadreoleiddio: Diwygiadau mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref-Ysgol (15 munud)**

**NDM5525 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Bil Dadreoleiddio, sy'n ymwneud â Phedolwyr a Chytundebau cartref-ysgol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Gellir cael copi o'r Bil Dadreoleiddio yma:
Dogfennau'r Bil - Bil Dadreoleiddio [HC] 2013-14 - Senedd y DU

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3)
Adroddiad Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 17 Medi 2014

# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 11 Medi 2014 i'w hateb ar 16 Medi 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Keith Davies (Llanelli): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyflwr yr undeb cyn y refferendwm yn yr Alban ddydd Iau? OAQ(4)1816(FM)

2. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar brentisiaethau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1823(FM)

3. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gapasiti'r rheilffyrdd ledled Cymru? OAQ(4)1819(FM)

4. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol o ran cofio'r rhai a fu farw yn gwasanaethu eu gwlad, gan gyfeirio'n benodol at senotaffau a chofebion rhyfel? OAQ(4)1828(FM)

5. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau Llywodraeth Cymru i alluogi pobl ifanc i fwynhau amgylcheddau di-fwg? OAQ(4)1827(FM)

6. Byron Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar warchod caeau chwarae ysgolion? OAQ(4)1831(FM)

7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch y goblygiadau i Gymru o'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig arfaethedig? OAQ(4)1825(FM)

8. Aled Roberts (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gefnogaeth blynyddoedd cynnar i blant difreintiedig o dan 5 oed? OAQ(4)1822(FM)

9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o wasanaethau gofal llygaid yng Nghymru? OAQ(4)1826(FM)

**10. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd dros weddill tymor y Cynulliad 2014-15 i fynd i'r afael â masnachu pobl yng Nghymru? OAQ(4)1824(FM)

**11. Elin Jones (Ceredigion):** Pam y penderfynodd Llywodraeth Cymru i dynnu cyllid oddi wrth y gronfa ariannol wrth gefn i brifysgolion? OAQ(4)1821(FM)**W**

**12. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar lefelau Clostridium Difficile yng Nghymru? OAQ(4)0069(AC)**W**

**13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1815(FM)

**14. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y tîm o Gymru sy'n croesi capan iâ yr Ynys Las heb gymorth gydag aelod sydd wedi colli ei goes? OAQ(4)1817(FM)

**15. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Pa gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo Gogledd Cymru yn uwchgynhadledd ddiweddar NATO? OAQ(4)1814(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac mae modd eu gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 23 Medi a dydd Mercher 24 Medi 2014**
**Dydd Mawrth 30 Medi a dydd Mercher 1 Hydref 2014**
**Dydd Mawrth 7 Hydref a dydd Mercher 8 Hydref 2014**
*************************************************************************

**Dydd Mawrth 23 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**
- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Canlyniad Refferendwm yr Alban a'i oblygiadau ar gyfer Cymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Lansio'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Gwasanaethau Cynghori - darparu cefnogaeth ymarferol i bobl yr effeithir arnynt gan y camau i Ddiwygio Lles (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith: Darpariaethau ar gyfer Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol (15 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 24 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

- Dadl Fer - Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 30 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**
- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyllideb Ddrafft 2015-16 (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Dysgu yng Nghymru Ddigidol (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd mewn perthynas â darpariaethau sy'n ymwneud â throsedd o gam-drin neu esgeuluso bwriadol gan weithwyr gofal (15 munud)
- Dadl: Darlledu (60 munud)

**Dydd Mercher 1 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**
- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 7 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**
- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Bil Cynllunio (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Ymateb i Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Dadreoleiddio: diwygio mewn perthynas â deddfwriaeth blaendaliadau tenantiaeth (15 munud)

**Dydd Mercher 8 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Brosesau Arferion Gorau o ran y Gyllideb (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau orthodonteg yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Keith Davies (Llanelli) (30 munud)